Adroddiad i'r:	**Pwyllgor Craffu Perfformiad**
Dyddiad y cyfarfod:	**18 Mawrth 2021**
Aelod Arweiniol / Swyddog:	**Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau/ Pennaeth Cymunedau a Chwsmeriaid**
Awdur yr Adroddiad:	**Prif Lyfrgellydd**
Teitl	**Safonau a Pherfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu perfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell yn erbyn Safonau Cenedlaethol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I ddarparu gwybodaeth ynghylch perfformiad y Cyngor yn erbyn y 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-20 a'r cynnydd a wneir i ddatblygu llyfrgelloedd fel mannau lles a chadernid lles unigol a chymunedol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Dylai'r Pwyllgor ystyried a chynnig sylwadau ar berfformiad yn erbyn 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgell Gyhoeddus Cymru ac ystyried gwneud cais am adroddiad cynnydd ym mis Ionawr 2022.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Safonau Llyfrgell Cyhoeddus Cymru

4.2. Mae dyletswydd statudol ar bob awdurdod llyfrgell yng Nghymru dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 i ddarparu gwasanaeth 'cynhwysfawr ac effeithlon' i'w breswylwyr. Mae'r Fframwaith o Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn galluogi i Adran Diwylliant a Chwaraeon

Llywodraeth Cymru fesur ac asesu sut y mae awdurdodau yn cyflawni eu dyletswyddau statudol.

4.3. Mae'r Gwasanaethau Llyfrgell yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol sy'n nodi eu perfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Yn dilyn hyn bydd Adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru yn ymateb ag asesiad ffurfiol yn yr hydref. Mae'r Adroddiad Asesu Blynyddol yn ymwneud â 2019-20 a pherfformiad yn erbyn blwyddyn gyntaf 6ed Fframwaith 2017-20, ac yn cynnwys 12 Hawl Craidd ac 16 Dangosydd Ansawdd. Mae'r adroddiad ynghlwm fel Atodiad A.

4.4. Mae Sir Ddinbych yn parhau i ddiwallu'r 12 Hawl Craidd.

4.5. Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (QI) y mae gan 10 ohonynt dargedau cyfansoddol. Oherwydd effaith Covid-19, dilëwyd 3 dangosydd ansawdd ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20 (QI3, QI6 a QI15), ac roedd gan QI6 darged cyfansoddol. O'r **9** targed a oedd yn weddill ar gyfer 2019-20 cyflawnodd Sir Ddinbych 7 yn llawn, 1 yn rhannol ac ni gyflawnwyd 1 o'r dangosyddion. (manylion ym mharagraff 2.2. o'r adroddiad asesu.)

4.6. Mae Sir Ddinbych wedi cynnal ei pherfformiad yn nhrydydd flwyddyn y chweched fframwaith, heb unrhyw newid sylweddol ers y flwyddyn gyntaf yn 2017/18. Mae'r adroddiad yn nodi'r ymrwymiad cryf i iechyd a lles, pwysigrwydd cynyddol adnoddau digidol, ac y dylai'r bwriad i ganolbwyntio ar ddatblygu staff alluogi llyfrgelloedd Sir Ddinbych i aros wrth graidd eu cymunedau a pharhau i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol.

4.7. Bu i ni fodloni QI13 yn rhannol ar lefelau staffio a chymwysterau, ond ni chyflawnwyd y rhain yn llawn. Mae lefel staff y pen yn is na'r targed (adroddwyd 2.44 FTE am bob 10,000 o'r boblogaeth pan fo'r targed yn 3.6) ac mae nifer y staff sydd â chymhwyster llyfrgell cydnabyddedig yn is na'r targed (adroddwyd 0.48, FTE pan fo'r targed yn 0.65). Mae staff rheng flaen a staff rheoli sy'n gweithio yn ein llyfrgelloedd a siopau un alwad yn darparu ystod eang o wasanaethau cwsmer ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys yng ngofynion y Safonau. Rydym wedi adrodd 50% o'r cyfanswm lefelau staffio a gwariant ar staffio dan y Safonau Llyfrgell.

4.8. Ni wnaethom ddiwallu QI19 ar ddeunydd darllen cyfredol: gwnaethom gaffael 135 eitem newydd (y targed yw 243), gan wario £1307 (targed £2180), am bob 1000 o'r boblogaeth.

4.9. Nid yw Adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi tabl data cymharol ledled Cymru, ond mae bob awdurdod yn cael ei restru yn ôl ei berfformiad yn erbyn y Dangosyddion Ansawdd (adran 2.4 yr adroddiad asesu). Yn 2019-20, o'r 22 awdurdod yng Nghymru, roedd Sir Ddinbych y 1af am nifer y llyfrau Cymraeg a fenthycwyd y pen, 5ed am nifer y benthycwyr gweithredol ac am y nifer yr ymweliadau rhithwir â'r llyfrgelloedd y pen, a 9fed am nifer yr ymweliadau corfforol.

Diweddariad ar y datblygiadau mwyaf diweddar: Gwasanaethau llyfrgell yn ystod y pandemig

4.10. Parhaodd y Gwasanaeth i ddarparu gwasanaeth gwerthfawr yn ystod y cyfnod clo cyntaf, er bod yr adeiladau ar gau. Cafodd y tîm staff eu hadleoli i ddarparu gwasanaeth Galwadau Rhagweithiol y cyngor i breswylwyr a oedd yn gwarchod eu hunain – cydnabyddiaeth o'u sgiliau wrth ymgysylltu â phobl, deall eu hanghenion a'u cyfeirio at gymorth.

4.11. Cafodd cynnig y Llyfrgell Ddigidol ei ehangu a'i hyrwyddo. Lansiwyd gwasanaeth papurau newydd digidol newydd a chryfhawyd y cynnig e-ddarllen gan fuddsoddiad o £250k gan Lywodraeth Cymru i wasanaeth Borrowbox Cymru gyfan o e-lyfrau y gellir eu lawrlwytho i gynyddu'r ystod o stoc sydd ar gael i ateb y galw cynyddol. Cynyddodd benthyca digidol yn Sir Ddinbych 118% yn ystod y flwyddyn, ac mae 812 o aelodau llyfrgell newydd wedi ymuno ar-lein.

4.12. Newidiodd y tîm Dechrau Da eu gwasanaeth i fod ar-lein yn syth ganol mis Mawrth ac maent wedi darparu hyd yma 33 o amser rhigymau byw wythnosol (a welir ar gyfartaledd gan 734 o deuluoedd bob wythnos), 30 fideo YouTube wythnosol (pob un yn cael ei weld ar gyfartaledd 1003 o weithiau), a 12 fideo Siarad Babi i gefnogi rhieni (154 ar gyfartaledd yn gwylio pob un) – gyda phobl wedi gweld yr holl allbwn gyfanswm o 73,932 o weithiau. Felly, maent wedi cynnal cysylltiad rheolaidd a chysylltiadau agos â theuluoedd ac wedi ymgysylltu â rhai newydd (dros 300 o ddilynwyr newydd ar Facebook). Dywedodd un rhiant *"Diolch am helpu i ddod ag ychydig o normalrwydd i*

fywydau ein rhai bach". Cydnabuwyd ymarfer arweiniol y tîm yn y sector pan ofynnwyd iddynt gyflwyno gweminar i'r sector blynyddoedd cynnar yng Nghymru ym mis Chwefror.

4.13. Wrth i gyfyngiadau gael eu llacio yn yr haf, creodd y gwasanaeth wasanaeth Archebu a Chasglu newydd ar gyfer mynediad i lyfrau llyfrgell, ac ailagor adeiladau'n raddol i gynnig mynediad i gyfrifiaduron personol, gwasanaethau Siop Un Alwad a phori cyfyngedig. Yn ystod y cyfnodau clo dilynol, mae'r gwasanaeth Archebu a Chasglu wedi cael caniatâd i barhau a darperir gwasanaethau Siop Un Alwad dros y ffôn ac ar-lein. Ers dechrau mis Ionawr mae staff wedi ymdrin â 4541 o alwadau gan gwsmeriaid, wedi gwneud dros 1050 o alwadau rhagweithiol i gwsmeriaid llyfrgell a phreswylwyr sy'n gwarchod o'r newydd i gadw mewn cysylltiad a rhoi gwybod iddynt am y gwasanaethau presennol, ac wedi gwneud 2251 o alwadau pellach i drefnu apwyntiadau casglu. Mae adborth gan breswylwyr wedi profi pa mor werthfawr fu mynediad at lyfrau a chymorth gan staff y llyfrgell i bobl yn ystod y cyfnod hwn o unigedd:

"Dwi wedi colli ambell beth. Dwi wedi colli'r côr, ond dwi'n meddwl mod i wedi colli'r llyfrgell yn fwy na dim"

"Roeddwn i eisiau dweud pa mor wych ydi o, er bod y llyfrgell ar gau, ei bod hi'n cynnig gwasanaeth Archebu a Chasglu. Rwyf wedi bod mor unig, mae fy nheulu'n byw dramor a'r cyfan sydd gennyf yw llyfrau. Mae'n wych gweld wynebau cyfeillgar y staff, ond yn fwy na dim, yr holl lyfrau. Mae fel cael ffrindiau yn dychwelyd o daith hir, a'r anrheg yw'r straeon sydd wedi'u cloi y tu mewn iddynt. Mae'r llyfrgell yn wasanaeth hanfodol i ddyn unig sy'n byw mewn cyfnod ansicr."

4.14. Bydd prosiect Trawsnewid Digidol, a ariennir o Gronfa Adfer Ddiwylliannol Llywodraeth Cymru, yn arwain at greu ystafelloedd digidol unigol ym mhob un o'n llyfrgelloedd i alluogi cwsmeriaid i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau rhithwir 1-1, cyfweliadau a chyfarfodydd gyda preifatrwydd cymharol. Bydd y prosiect hefyd yn darparu dyfeisiau cludadwy i alluogi staff y llyfrgell i weithio mewn ffordd fwy hyblyg a diogel.

4.15. Mae'r ffocws ar ddatblygu staff yn ystod Covid-19 wedi bod ar sgiliau digidol, i ddarparu'r gwasanaeth Galwadau Rhagweithiol, ac i ddarparu a hyrwyddo

gwasanaethau llyfrgell digidol. Mae Prif Lyfrgellydd Sir Ddinbych yn arwain ar gais llwyddiannus gan SCL Cymru (Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr) i Gronfa Adfer Ddiwylliannol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect cydweithredol i Gymru gyfan i ddatblygu sgiliau a hyder staff llyfrgelloedd wrth ddarparu gweithgareddau llyfrgell rhithwir.

4.16. Mae gweithgaredd y gwasanaeth yn y maes Iechyd a Lles yn parhau i fod yn ffocws penodol. Lansiwyd y cynllun Darllen yn Well Llyfrau ar Bresgripsiwn i blant yng Nghymru ym mis Hydref 2020. Ailgynlluniwyd prosiect cydweithredol iechyd meddwl Darllen yn Well: Llyfrau ar Bresgripsiwn gyda Chonwy, a ariannwyd gan raglen Trawsnewid Cymru Iachach, i ganolbwyntio ar gyrraedd buddiolwyr posibl yn uniongyrchol yn hytrach na thrwy feddygfeydd. Mae Llywyr Cymunedol Age Connects wedi ymgorffori'r cynllun yn pecyn gwaith o opsiynau ar gyfer rhagnodi cymdeithasol i gefnogi pobl sy'n delio â heriau iechyd meddwl. Mae dros 2600 o lyfrau Darllen yn Well wedi cael eu benthyg yn Sir Ddinbych ers lansio'r cynllun cyntaf yn 2018.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb statudol i'r Gwasanaeth Llyfrgell, ac mae ei ddarpariaeth gwasanaeth yn cyfrannu at sawl blaenoriaeth gorfforaethol megis maethu cydnerth cymunedol, moderneiddio gwasanaeth, cynhwysiant digidol, llythrennedd, dysgu gydol oes ac ymgysylltu â'r gymuned.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd trawsnewid llyfrgelloedd yn ganolbwyntiau cymunedol yn galluogi i ystod eang o wasanaethau a phartneriaid y cyngor gysylltu â chymunedau lleol drwy'r rhwydwaith o safleoedd a chyfleusterau presennol. Nid oes unrhyw gynnig ariannol ynghlwm â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid ydym wedi cynnal Asesiad o Effaith ar Les, ond mae'r 6ed Fframwaith o Safonau Llyfrgell wedi'i osod i arddangos bod gan lyfrgelloedd gyfraniad amlwg i'w wneud at saith amcan lles Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ym mis Ionawr 2020, ystyriodd y Pwyllgor Craffu Asesiad Llywodraeth Cymru o berfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ar gyfer 2018-19. Ni does unrhyw ymgynghoriad pellach wedi bod o ran yr adroddiad penodol hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Amherthnasol

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2. Mae Adran 7.4.2(b) Cyfansoddiad y Cyngor yn gosod amod y gall y Pwyllgor Craffu “adolygu a chraffu ar berfformiad y Cyngor mewn perthynas â'i amcanion polisi, targedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth arbennig”.